# Paratoi a gweithredu cychod bach

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi a gweithredu cychod bach a ddefnyddir at ddibenion cymorth.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un sydd yn gyfrifol am weithredu cychod bach i wneud eu gwaith.

(NI DDYLID YSTYRIED CYFLAWNI'R SAFON HON FEL RHAN O GYMHWYSTER FEL TYSTYSGRIF STATUDOL O GYMHWYSEDD NEU DRWYDDED I YMARFER)

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Paratoi ar gyfer gweithredu cychod bach**

1. gwneud eich gwaith yn ddiogel yn unol â gofynion iechyd a diogelwch
2. cadarnhau bod y cwch mewn cyflwr gweithredol diogel sydd yn addas ar gyfer gofynion y gwaith
3. cadarnhau bod systemau gyriant a llywio mewn cyflwr gweithredol da sydd yn addas ar gyfer y gwaith
4. sicrhau bod holl offer diogelwch y cwch mewn cyflwr gweithredol da yn cynnwys cyfarpar diogelu personol, cyfarpar goroesi a chyfarpar cyfathrebu
5. nodi peryglon posibl, a gweithredu i leihau'r risg yn ystod gweithgareddau gwaith
6. adrodd am unrhyw sefyllfa yr ystyrir ei bod yn achosi risg ychwanegol i weithrediadau a gynlluniwyd

**Gweithredu cychod bach**

1. symud cychod i gefnogi gweithrediadau, gan ystyried amodau amgylcheddol cyffredin
2. cwblhau'r holl symudiadau yn ddiogel, gan aros o fewn terfynau gweithredu'r cwch, yn unol â'r gofynion cyfreithiol
3. gweithredu i gynnal diogelwch y cwch wrth ddod ar draws problemau gweithredu
4. ymateb i rywun yn y dŵr, gan symud y cwch i achub yr unigolyn yn ddigel, yn unol â'r gweithdrefnau a argymhellir

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch sydd yn gysylltiedig â gweithrediadau cychod bach
2. terminoleg sylfaenol cychod
3. pwysigrwydd cwblhau gwiriadau gweithdrefnol ar y cwch, y systemau gyriant a diogelwch
4. y cyfarpar diogelwch sydd yn ofynnol i gynnal eich diogelwch eich hun ac eraill
5. sut i gadw cyfarpar diogelwch mewn cyflwr gweithredol da
6. y defnydd cywir o waith rhaffau a chlymau
7. galluoedd a chyfyngiadau gweithredol cychod
8. rheolau sydd yn rheoli gweithrediad diogel cychod bach
9. sut i gael a dehongli rhagolygon y tywydd ar gyfer yr ardal weithredu
10. y peryglon morwriaeth sydd yn yr ardal weithredu
11. y defnydd cywir o siacedi achub a chymhorthion hynofiant
12. y gweithdrefnau brys ar gyfer 'person yn y dŵr'
13. y peryglon sydd yn gysylltiedig â throchi mewn dŵr

## Cwmpas/Ystod

A. symud eich cwch i:

1.
2.
3.
4. clymu

## Geirfa

amodau amgylcheddol – Y tywydd ac amodau'r dŵr

perygl – Unrhyw beth sydd yn cyflwyno risg i chi neu eich cwch, yn cynnwys gweithredu cwch, terfynau gweithredol y cwch, amodau amgylcheddol

gweithredu – Rheoli cwch

Paratoi a gweithredu cychod bach

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCU13 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu |
| **Geiriau Allweddol** | Cwch: gweithredu |